# **Cylchdaith – Llaneilian** (SH474928)

Gweler y map isod

## 1. Maes Parcio – Trwyn y Balog (Point Lynas) (cyfeiriad clocwedd)


Trowch i'r dde allan o'r maes parcio a cherddwch i lawr y ffordd i Borth Eilian, cildraeth bychan prydferth cysgodol. Cadwch at y ffordd, trowch i'r dde a dilyn ffordd y goleudy dros y grid gwartheg, ar ôl 300 metr trowch i'r dde drwy giât mochyn.

## 2. Trwyn y Balog – Yr Hen Orsaf Telegraff

Dilynwch y llwybr cyhoeddus ar ochr dde y cae tua'r dwyrain at yr arfordir. Gyda'r wal ar eich ochr dde ewch drwy giât mochyn ac ym mhen draw'r cae ewch i'r dde i lawr yr allt at y môr. Dilynwch yr arfordir gyda'r môr ar y chwith ac ewch drwy giât mochyn i'r cae nesaf. Ewch syth ar draws y cae a thrwy'r giât mochyn. Ewch i'r dde bellter byr i fyny'r allt i'r giât mochyn nesaf. Dilynwch ochr dde'r cae hwn at giât mochyn fetel sydd ar gornel ochr dde y cae. Ewch i'r chwith ar draws y cae nesaf gan symud yn groeslinol i fyny'r allt heibio'r marciwr ffordd at y gamfa yn y gornel chwith. Byddwch yna'n mynd i fyny'r allt drwy ychydig o eithin. Dilynwch y prif lwybr ac edrychwch am y marciwr ffordd. Yn y top trowch i'r dde a dilynwch y wal (Yr Hen Orsaf Telegraff yw'r ty gwyn ar y chwith) ewch dros y gamfa a cherddwch rhwng y ddwy ffens a dros gamfa arall. Cerddwch heibio'r adeilad allanol a dros y gamfa gyfagos i'r llwybr. (I gyrraedd copa Mynydd Eilian dilynwch y llwybr yn eich blaen, trowch i'r dde ar hyd y lôn, ac wedyn i'r chwith i fyny'r copa).

## 3. Maes Parcio – Yr Hen Orsaf Telegraff

Trowch i'r dde i lawr y llwybr. Yn y fynedfa i 'Refail Hir' ewch i'r dde i lawr llwybr â gwrychyn. Ymhen ychydig ar yr ochr chwith mae man coediog 'Coed Avens' dan berchnogaeth a rheolaeth Coed Cadw sydd â mynediad cyhoeddus iddo. Ewch i lawr y llwybr nes y byddwch yn cyrraedd y trac. Trowch i'r dde yn sydyn ar ôl troi i'r chwith dros stepiau cerrig a thrwy giât i mewn i gae. Ewch i lawr ochr chwith y cae a dros gamfa. Cadwch i'r dde a dilyn llinell y ffens ochr dde at giât mochyn, parhewch ar hyd linell y ffens at y giât mochyn nesaf yn y gornel dde. Yna cadwch i'r chwith i lawr yr allt at y gamfa yn ymyl y bont. Ewch dros y gamfa hon i'r ffordd, a throwch i'r chwith a dilyn y ffordd yn ôl i fyny i'r maes parcio.




Tra bod pob ymdrech wedi ei wneud i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir ar amser y cyhoeddiad, ni ellir derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gamgymeriadau neu esgeulustod.